**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**10 RHAGFYR 2014**

**ADRODDIAD ARBENNIG**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# PROSIECT ISADEILEDD MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU

**CYFRANNU AT Y BROSES GYNLLUNIO**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru yn cynnwys cynigion ar gyfer llinell uwchben newydd 17cilomedr o hyd 132cilo folt rhwng is-orsaf casglwr newydd yng Nghoedwig Clocaenog a phwynt terfynol i'r de o Ffordd Glascoed, y B5381, Cefn Meiriadog. Mae'n cael ei gategoreiddio fel prosiect seilwaith o bwys cenedlaethol a bydd angen caniatâd datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio 2008. Byddai'r llwybr arfaethedig yn croesi drwy Sir Ddinbych a Chonwy.

1.2 Efallai y bydd aelodau'n cofio bod adroddiadau blaenorol wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r prosiect hwn a chyflwynodd y Cyngor ymgynghoriad cyn gwneud cais ffurfiol i Scottish Power Manweb ym mis Mai 2014. Roedd yr ymateb yn nodi sylwadau technegol ar y deunydd ymgynghori a hefyd yn amlwg yn mynegi barn yr Aelodau y byddai llinellau uwchben yn cael effaith niweidiol sylweddol ar drigolion lleol, y dirwedd lleol ac ar yr amgylchedd lleol.

1.3 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Medi 2014, cytunodd y Cyngor yn unfrydol ar syniad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Joe Welch, Colin Hughes, Geraint Lloyd Williams, Meirick Lloyd Davies ac Eryl Williams. Roedd y Cynnig fel a ganlyn: "Mae arnom ni eisiau cefnogaeth y Cyngor i gael safiad cadarn i fynnu bod hyd gyfan cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru yn cael ei osod o dan y ddaear".

1.4 Felly, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r prosiect llinell uwchben. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd wedi mabwysiadu safiad tebyg o ran y prosiect.

1.5 Mae swyddogion wedi cyfarfod ar ôl hynny gyda Scottish Power Manweb a Swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac er gwaethaf y syniad o Gynnig, mae Scottish Power Manweb wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu symud ymlaen gyda chynigion ar gyfer llinellau uwchben ac mae cais am Ganiatâd Datblygu yn debygol o gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn fuan yn 2015.

## 2. YMGYSYLLTU YN Y BROSES GYNLLUNIO

2.1 Unwaith y bydd cais am ganiatâd datblygu wedi cael ei dderbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio, bydd y Cyngor yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i gyflwyno Adroddiad Effaith Leol, sylwadau ysgrifenedig eraill a mynychu cyfarfodydd a sesiynau Gwrandawiad drwy gydol yr Archwiliad.

2.2 Er nad oes dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gymryd rhan yn y broses, mae'r Cyngor wedi ymrwymo eisoes i gymryd rhan lawn yn y broses gan ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Ynglŷn â’r prosiect hwn, roedd adroddiad i Bwyllgor Cynllunio Ionawr yn ceisio diweddaru’r Aelodau ynglŷn â statws presennol Prosiect Cysylltiadau Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru, a gofyn am benderfyniad i ba raddau y dylai’r Cyngor gymryd rhan yn y broses gynllunio.  Penderfynodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Dylid gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru
- Dylid gofyn i’r Cwmnïau dan sylw gyfrannu
- Dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor Sir lle bo hynny’n briodol

2.3 Fel y gŵyr Aelodau, nid yw’r Cyngor yn derbyn ffi cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol, fodd bynnag efallai y bydd angen dyrannu amser swyddog ac adnoddau sylweddol i’r prosiect yn ystod y cyfnod Archwilio er mwyn asesu effeithiau lleol a chynrychioli'r Cyngor mewn sesiynau Gwrandawiad.

2.4 Mae'r dirwedd ac effaith gweledol y cynnig yn debygol o fod yn ystyriaeth cynllunio allweddol; felly, efallai y bydd angen i'r Cyngor gaffael gwasanaethau ymgynghori tirlun allanol i helpu i asesu effeithiau lleol y cynnig.

2.5 Mae'r prosiect yn effeithio ar Sir Ddinbych a Chonwy, felly mae cyfle i weithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a rhannu adnoddau swyddogion. Mae'r Cyngor wedi cydweithio’n flaenorol gyda Chonwy ar fferm wynt Coedwig Clocaenog.

**3. CYTUNDEB PERFFORMIAD CYNLLUNIO**

3.1 Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Scottish Power Manweb mewn perthynas â Chytundeb Perfformiad Cynllunio.

3.2 Mae Cytundeb Perfformiad Cynllunio yn gontract cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r datblygwr. Byddai'n ymrwymo'r Cyngor i ymgymryd â gweithgareddau penodol o fewn graddfeydd amser penodol, megis cynhyrchu Adroddiad Effaith Leol, gan roi sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft, cytuno Datganiadau o Dir Cyffredin a mynychu sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad.

3.3 Felly, byddai mynd i mewn i Gytundeb Perfformiad Cynllunio yn ymrwymo'r Cyngor i gymryd rhan lawn yn y broses gynllunio a byddai angen neilltuo adnoddau digonol ar gyfer y prosiect er mwyn sicrhau y gall terfynau amser archwilio gael eu diwallu. Yn gyfnewid am hyn, byddai Scottish Power Manweb yn darparu cyfraniad ariannol tuag at y costau gan y Cyngor i asesu effeithiau'r prosiect yn ddiduedd ac yn wrthrychol a chymryd rhan yn y broses Archwilio.

3.4 Er bod y Pwyllgor wedi penderfynu’n flaenorol i’r Cyngor ofyn am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr, mae Swyddogion yn ceisio arweiniad gan y Pwyllgor ynghylch a yw Aelodau'n teimlo ei bod yn briodol i'r Cyngor ymrwymo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio. Mae hyn yn ystyried y syniad o Gynnig yn y Cyngor Llawn.

3.5 Dylai Aelodau nodi, pe bai’r Cyngor yn gwrthod bod yn rhan o'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio, gall y Cyngor dal gymryd rhan yn y broses, fodd bynnag, os bydd angen caffael ymgynghorwyr tirwedd allanol i helpu i asesu tirwedd ac effaith

weledol y prosiect, byddai angen ei ariannu gan gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

## 4. DATRYSIAD

4.1 Gofynnir i’r Aelodau ystyried yr opsiynau isod a gofynnir am benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir gan ystyried y syniad o Gynnig y Cyngor Llawn ar 9 Medi, 2014:

| |
|---|
| **Opsiwn A:** Mae'r Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (CPC) ac yn cyfrannu at y broses.<br><br>Byddai'n rhaid i'r Cyngor asesu effeithiau'r cynnig, a chymryd rhan lawn yn yr Archwiliad, fodd bynnag, gallai'r costau gael eu hadennill gan y datblygwr. Gallai ymgynghorwyr tirwedd allanol gael eu caffael i asesu'r effaith ar y dirwedd heb unrhyw gost i'r Cyngor.<br><br>Byddai angen dargyfeirio amser swyddogion o ffrydiau gwaith eraill a byddai'r Cyngor yn ymrwymol i delerau'r CPC. |
| **Opsiwn B:** Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb CPC, ond yn cymryd rhan yn y broses.<br><br>Byddai'r Cyngor yn ymdrechu i asesu'n llawn yr effeithiau a byddai angen dargyfeirio amser swyddogion o ffrydiau gwaith eraill.<br><br>Os bydd angen penodi ymgynghorydd tirwedd allanol i helpu i asesu'r dirwedd ac effeithiau gweledol y cynnig, byddai angen tynnu cronfeydd wrth gefn y Cyngor i lawr i dalu am yr ymgynghorwyr tirwedd. Felly, mae dau is-opsiwn yn cael eu cynnig:<br><br>**Opsiwn B.1** adnoddau mewnol ac allanol yn cael eu defnyddio. Byddai angen tynnu cronfeydd wrth gefn y Cyngor i lawr i dalu am ymgynghorwyr tirwedd allanol.<br><br>**Opsiwn B.2** Dim ond adnoddau mewnol sy’n cael eu defnyddio. Byddai asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn seiliedig ar farn y Swyddog yn hytrach nag asesiad pensaer tirwedd proffesiynol. |
| **Opsiwn C:** Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i GPC, ac nid yw'n cymryd rhan yn y broses.<br><br>Mae'r Cyngor yn gwrthod cymryd rhan yn y broses. |